**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1349
Ein cyf/Our ref LW/01054/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

09 Awst 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mai yn amgáu deiseb P-06-1349. Mae'n ddrwg gen i am yr oedi cyn ymateb ond gallaf gadarnhau nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gyflwyno 'dinasoedd 15 munud' yng Nghymru.

Rwyf hefyd yn gwrthod cynsail y ddeiseb, sy'n nodweddiadol o'r wybodaeth anghywir a welwn gan grwpiau fel 'Llais Cymru'. Nid yw dinasoedd 15 munud a chymdogaethau 20 munud yn ymwneud â chyfyngu ar ryddid, cyflwyno gwyliadwriaeth, na rheoli bywydau pobl ac nid oes unrhyw dystiolaeth gredadwy sy'n awgrymu i'r gwrthwyneb.

Mae Llwybr Newydd, ein Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, yn sôn am ddod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio. Nid yw hyn yn golygu atal teithio, na chyfyngu ar ryddid, ond yn hytrach gynllunio ymlaen llaw ar gyfer gwell cysylltedd ffisegol a digidol a chefnogi mynediad at wasanaethau mwy lleol - gan gynnwys mwy o weithio gartref a gweithio o bell. Mae'n ymwneud â buddsoddi mewn trafnidiaeth gynaliadwy, fel y gall pobl ddewis cerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer rhai teithiau.

Mae hefyd yn ymwneud â gwneud y peth iawn, y peth hawdd - fel y gall trafnidiaeth chwarae gyfrannu at gyflawni ein hymrwymiadau sero net yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, byddwn yn hapus iawn i'w hateb.

Yn gywir,

**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.